Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 30.04.2021

## Cymorth Marchnata i Fusnesau

Mae gan Llwyddo'n Lleol gynnig unigryw i 15 o fusnesau ledled Gwynedd a Môn. Dyma gyfle i dderbyn cefnogaeth am ddim gan swyddog marchnata dros gyfnod o amser. Os yn llwyddiannus, bydd y cynllun yn cyflogi swyddog marchnata i weithio gyda chi am ddiwrnod yr wythnos, dros gyfnod o 10 wythnos. Cyfle i gael blas ar gymorth marchnata, ehangu eich cynulleidfa, a bod yn rhan o gynllun cyffrous sy'n cefnogi llwyddiant lleol!

Am fwy o wybodaeth cysylltwch hefo Jade – jade@mentermon.com

Dyddiad Cau: Mai 16 2021

I wneud cais, ewch i:

https://forms.gle/DnsJUxZzzvj9aSCD6

## Sgiliau Bwyd Cymru: Gweithdai a Dosbarthiadau Meistr Mai 2021

Mae cyfres gweithdy dosbarth meistr poblogaidd Sgiliau Bwyd Cymru yn parhau am y trydydd mis ym mis Mai i gynorthwyo busnesau sector twristiaeth Cymru ymhellach, i gyrchu, gweini a gwerthu bwyd a diod o Gymru mewn byd post-Covid. Mae cyrsiau am lunio bwydlenni, steilio bwyd a ffotograffiaeth, rhoi'r profiad gorau i'r cwsmer a chyrchu cynnyrch lleol. Am ragor o wybodaeth am y cyrsiau a'r dyddiadau, ac i gofrestru, ewch i:

https://www.foodskills.cymru/cy/cymru-cyrchfan-bwyd/ccb-digwyddiadau/gweithdai-mai/

## Uwchgynhadledd Diwydiant MADE Cymru 8–10 Mehefin 2021

Fel rhan o'u hymrwymiad i weithgynhyrchu yng Nghymru, mae MADE Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau i hysbysu, ymgysylltu ac ysbrydoli busnesau yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn o adferiad ar ôl Covid. Bydd yr holl ddigwyddiadau'n cael eu harwain gan siaradwyr allweddol yn y diwydiant ac maent yn rhad ac am ddim i'w mynychu. Mae'r manylion eto i'w cadarnhau, ond yn y cyfamser, gallwch e-bostio MADE@uwtsd.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth, neu i gael rhagor o wybodaeth am MADE Cymru, ewch i:

https://www.madecymru.co.uk/cy/

## Gwobrau Busnesau Newydd Cymru 2021

Sefydlwyd Gwobrau Busnesau Newydd Cymru yn 2015 i gydnabod llwyddiannau unigolion sydd wedi cael syniad gwych, wedi gweld y cyfle a chymryd risgiau i lansio cynnyrch neu wasanaeth newydd. I wneud cais am y gwobrau, mae'n rhaid i swyddfa gofrestredig a/neu gyfeiriad masnachu'r busnes fod yng Nghymru a dylai'r busnes fod wedi cychwyn masnachu ar 1 Mehefin 2018 neu wedi hynny. Dylai'r busnes fod dan berchnogaeth annibynnol h.y. y sylfaenwyr/buddsoddwyr annibynnol yn berchen arno ac nid yn is-gwmni ar gyfer busnes arall. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Mai 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.walesstartupawards.com/

## Gweminar Gweithredu Fel Cwmni Cyfyngedig – Busnes Cymru Gogledd

Mae’r weminar hon wedi’i hanelu at bobl sy’n dymuno, neu’n meddwl am weithredu o dan strwythur Cwmni Cyfyngedig. Bydd y weminar yn ymdrin â gofynion cyfreithiol y cwmni, a chi’ch hun fel Cyfarwyddwr. Hefyd sut y bydd hyn yn wahanol i weithredu fel fasnachwr unigol neu bartneriaeth. Pwysigrwydd cadw llyfrau, pa treuliau a ganiateir o ran safbwynt treth, a beth sy’n cael ei ystyried yn Fudd Daliadau Mewn Da a sut y bydd hyn yn effeithio arno chi a’r cwmni. Bydd y weminar hefyd yn edrych ar effaith treth gweithredu fel Cwmni Cyfyngedig yn hytrach na masnachu’n unigol neu fel partneriaeth.

- Mae’r Weminar hon ar gyfer cleientiaid Gogledd Cymru yn unig, ac mae dewis o ddyddiadau trwy 2021.

I archebu’ch lle, cysylltwch â swyddfa Business Wales North ar 01745 585025 neu e-bostiwch northwales@businesswales.org.uk

## Sero Net 2021 – Gogledd Cymru, Mersi a’r Ddyfrdwy Cynhadledd Fusnes am Ddim ac Ar-lein – 20 Mai 2021

Ysbrydoliaeth, gwybodaeth a chyngor i fusnesau ar eu taith i Sero-net. Rhoddir sylw i Ynni a Thrafnidiaeth, Twristiaeth a Lletygarwch, Gweithgynhyrchu, Bwyd a Manwerthu, Adeiladau ac Adeiladu, mae agenda lawn yn cynnwys cyfraniadau gan fusnesau yn yr ardal o rai o’r sectorau hynny. Yn cael ei gyflwyno gan y darlledwr a’r newyddiadurwr Jamie Owen, mae’r digwyddiad yn cynnwys canllaw am ddim “Cymorth Busnes a Chyllid ar gyfer Sero Net” i fynychwyr, a bydd pob busnes a sefydliad dielw sy’n cofrestru yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yng ngwobrau Arweinwyr ‘Net Zero’, a bydd enillwyr y rhain yn cael eu cyhoeddi ar y diwrnod. I gofrestru, ewch i:

https://netzero2021.eventbrite.co.uk/

## Holiadur Wyddfa Di-blastig

Mae Share Impact & Travel Without Plastic, wedi cael eu comisiynu gan Barc Cenedlaethol Eryri i greu adroddiad cwmpasu sy'n archwilio'r posibilrwydd o greu Statws Mynydd Di-blastig ar gyfer Yr Wyddfa a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae Partneriaeth yr Wyddfa wedi gofyn i Share Impact archwilio:

- A yw Statws Mynydd Di-blastig yn bosib, a beth fyddai'r meini prawf? (Hwn fyddai'r cyntaf o'i fath yn Ewrop)

Ac o fewn hyn i archwilio opsiynau i::

- Leihau sbwriel – yn enwedig eitemau plastig untro (single use)
- Leihau llygredd plastig a micro-plastig yn yr ardal
- Ddylanwadu ar newid ymddygiad yn ymwneud efo llygredd plastic yn yr ardal werthfawr yma

Maent yn awyddus i glywed gan unigolion a sefydliadau sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â'r ardal i gyfrannu eu perspectif yn yr holiadur byr yma, ewch i:

https://form.jotform.com/211075363774053

Os hoffech fwy o wybodaeth am yr holiadur neu'r prosiect, e-bostiwch Kat Luckock, Arweinydd y Prosiect ar kat@shareimpact.org

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru